

Hysbysiad pennu'r dyddiad ar gyfer arfer hawliau etholwyr

CYNGOR TREF PORTHMADOG

Blwyddyn ariannol yn dod i ben ar 31 Mawrth 2023

1. Dyddiad cyhoeddi : Mehefin 22 2023
2. Bob blwyddyn, archwilir y cyfrifon blynyddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cyn y dyddiad hwn, mae unrhyw berson â diddordeb yn cael cyfle i archwilio a gwneud copïau o'r cyfrifon a'r holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau ac yn y blaen sy'n ymwneud â hwy am 20 diwrnod gwaith ar rybudd rhesymol. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023, bydd y dogfennau hyn ar gael ar rybudd rhesymol ar gais i :-

Marian Roberts, Clerc Cyngor Tref Porthmadog , 01766513709
clerccyngtreport@gmail.com

Rhwng yr oriau o 09.00 a 17.00 o ddydd Llun i ddydd Gwener

Yn dechrau ar 10 Gorffennaf 2023

Ac yn dod i ben ar 4 Awst 2023

3. O 11 Medi 2023, hyd nes y bydd yr archwiliad wedi ei gwblhau, mae gan Etholwyr Llywodraeth Leol a'u cynrychiolwyr hefyd:
 - yr hawl i holi'r Archwilydd Cyffredinol ynglŷn â'r cyfrifon.
 - yr hawl i ddod gerbron yr Archwilydd Cyffredinol a mynegi gwrthwynebiad i'r cyfrifon neu unrhyw eitem ynddynt. Rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig o wrthwynebiad i'r Archwilydd Cyffredinol yn gyntaf. Rhaid rhoi copi o'r rhybudd ysgrifenedig hefyd i'r Cyngor.

Gellir cysylltu â'r Archwilydd Cyffredinol drwy: Archwiliadau Cyngorau Cymuned, Archwilio Cymru, 1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ neu drwy e-bost yn archwiliadcyngorcymunedol@archwilio.cymru.